

DATGANIAD GWRTHGAETHWASIAETH A MASNACHU POBL

Cyhoeddwyd y datganiad hwn yn unol ag a54 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n nodi'r camau sy'n cael eu cymryd gan Dai Wales & West (TWW) er mwyn atal caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein busnes a'n cadwyni cyflenwi ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2025. Mae'r datganiad hwn yn cwmpasu Tai Wales & West a'i is-gwmnïau.

Cyflwyniad

Mae caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn digwydd mewn economïau datblygedig a datblygol ac ar draws ystod eang o sectorau busnes. Mae'r Grŵp yn gweithredu ar sail dim goddefgarwch tuag at gaethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur dan orfodaeth a masnachu pobl. Rydym wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gaethwasiaeth fodern, ac i ddileu'r arferion hyn o bob rhan o'n cadwyni cyflenwi, drwy gynnal perthnasoedd gwaith cyfrifol gyda'n partneriaid a'n cyflenwyr.

Strwythur a chadwyni cyflenwi

Mae'r Grŵp yn ddarparwr tai cymdeithasol nid-er-elw sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig.

Darperir gwasanaethau i fwy na 20,000 o bobl, gyda chefnogaeth dros 600 o weithwyr, ac mae'r Grŵp yn berchen ar ac yn rheoli dros 12,500 o gartrefi fforddiadwy ar draws 13 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys tai pwrpasol ar gyfer pobl hŷn ac atebion cymorth ar gyfer preswylwyr ag ystod eang o anghenion. Prif ddiben y Grŵp yw sicrhau twf cryf a chynaliadwy sy'n gwella bywydau, cartrefi a chymunedau.

Mae ein gweithgareddau caffael yn canolbwyntio ar gyflenwi o fewn Cymru lle bo hynny'n ymarferol, gan roi ystyriaeth i weithgynhyrchu lleol a moesegol drwy ddull "prynu'n iawn". Mae ein brif gontractwyr datblygu, contractwyr gwasanaethau eiddo a chyflenwyr yn cyfrannu at werth cymdeithasol a buddion cymunedol sy'n cyd-fynd â fframwaith Gwneud Gwahaniaeth y Grŵp.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i dalu'r Cyflog Byw ac yn cynnal adolygiadau rheolaidd o delerau cyflogaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'n ofynnol i'n prif gontractwyr ddangos cynnydd tuag at achrediad y Cyflog Byw fel rhan o'r prosesau caffael ac adolygu contractau.

Darperir hyfforddiant e-ddysgu sy'n seiliedig ar rolau er mwyn sicrhau bod aelodau staff perthnasol yn deall y risgiau sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern wrth ddarparu gwasanaethau a rheoli cadwyni cyflenwi. Mae canllawiau'r Llywodraeth ar adnabod a chefnogi dioddefwyr posibl ar gael i bob aelod o staff. Mae hyfforddiant penodol i gaffael yn ymgorffori gweithdrefnau asesu a diwydrwydd dyladwy sy'n seiliedig ar ofynion moesegol.

Ers 2019, mae'r Grŵp wedi bod yn llofnodwr Côt Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi (CFCC). Mae offeryn e-ddysgu CFCC ar gael i'r holl staff, ac mae mecanwaith chwythu'r chwiban allanol wedi'i sefydlu ar wefan y Grŵp er mwyn galluogi adrodd gan drydydd partion.

Mae'r Grŵp yn gweithredu gydag uniondeb yn ein holl berthnasoedd busnes ac yn cynnal systemau a rheolaethau sydd wedi'u cynllunio i atal caethwasiaeth fodern o fewn ei gadwyni cyflenwi. Nid yw'r Grŵp yn cefnogi nac yn ymgysylltu ag unrhyw fusnes y gwyddys ei fod yn gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern. Cedwir perthnasoedd masnachu â sefydliadau sy'n cydymffurfio â'r Datganiad hwn yn unig, neu sy'n dangos cynnydd clir tuag at gydymffurfio. Gellir terfynu contractau ar unwaith os nodir troseddau caethwasiaeth fodern o fewn gweithrediadau neu gadwyn cyflenwi contractwyr.

Asesiad risg a diwydrwydd dyladwy

Er mwyn nodi a lliniaru risgiau, mae GTWW yn parhau i fabwysiadu proses cymhwysio cyflenwyr er mwyn diffinio gofynion deddfwriaethol a moesegol, gan alluogi gwerthuso ac asesu yn erbyn ymrwymadau Côt Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi (CFCC). Mae gan staff GTWW ganllawiau a dogfennaeth ategol er mwyn cynorthwyo gyda'r broses fewnol. Ystyrir bod cwestiynau sy'n targedu risg caethwasiaeth a masnachu pobl, diogelu rhag llafur plant ac arferion cyflogaeth moesegol yn rhan o'n broses gaffael. Mae'r broses cymhwysio cyflenwyr yn annog cyflenwyr i lofnodi'r CFCC; mae hyn nid yn unig yn codi eu hymwybyddiaeth o ofynion y Ddeddf a'r CFCC, ond hefyd yn pwysleisio'r pwysigrwydd y mae GTWW yn ei roi ar allu dangos tystiolaeth o gydymffurfiaeth.

Mae gweithredu'r fframwaith caffael yn sicrhau bod systemau a phrosesau addas ar waith i asesu a rhoi sicrwydd bod GTWW, ynghyd â'i gyflenwyr a'i gontractwyr, eu hisgontractwyr, a'u cadwyni cyflenwi, yn cydymffurfio â'r gyfraith berthnasol. Yn ogystal, mae'r broses yn gosod disgwyliadau clir i gyflenwyr weithredu gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy ar gyfer eu cadwyni cyflenwi a'u hisgontractwyr eu hunain, yn unol â'r Côt Ymarfer, ac i sicrhau bod GTWW yn gweithio gyda chyflenwyr y mae eu gwerthoedd yn cyd-fynd â gwerthoedd y Grŵp.

Polisiâu ynghylch caethwasiaeth fodern

Ni nodwyd unrhyw faterion sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern o fewn gweithrediadau'r Grŵp na'i gadwyni cyflenwi. Mae'r polisiâu canlynol yn cefnogi cydymffurfiaeth ac yn cynorthwyo i adnabod pryderon posibl yn gynnar:

- Côt Ymddygiad i Gyflogeion
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi a Gweithdrefn Atal Twyll
- Rheoliadau Ariannol
- Polisi Diogelu Oedolion a Phlant
- Polisi Cyflogaeth Foesegol

Llywodraethu, cymeradwyo ac adolygu

Gwneir y datganiad hwn dan Adran 54(1) Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n ffurfio datganiad caethwasiaeth a masnachu pobl y Grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025. Mae trosiant cyfunol y Grŵp yn rhagori ar y trothwy statudol o £36m ar gyfer adrodd.

Mae'r Datganiad wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd y Grŵp a bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau bob blwyddyn.

Llofnodwyd



Peter Harding
Cadeirydd Prif
Tai Wales & West

Llofnodwyd



Anne Hinchey
Weithredwr y Grŵp
Tai Wales & West

Dyddiad: 23 Ebrill 2026